

## Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân yng Nghymru 2020

### ADRAN 1. PA GAM GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EI YSTYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar amryw ddiwygiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru. Byddai'r cynigion yn diwygio rheoliadau'r cynlluniau i gydraddoli buddion goroeswyr (hynny yw, buddion yn dilyn marwolaeth aelod o gynllun) dan rai amgylchiadau ar gyfer partneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw, a phlant. Mae hyn yn dilyn dyfarniadau'r Goruchaf Lys yn achosion Walker yn erbyn Innospec<sup>1</sup> a McLaughlin<sup>2</sup> yn y drefn honno.

#### **Cydraddoli buddion goroeswyr ar gyfer partneriaid sifil / gwŷr a gwragedd o'r un rhyw**

Yn dilyn cyflwyno partneriaethau sifil yn 2005, diwygiwyd y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cynllun 1992) i ddarparu pensiwn goroeswr ar gyfer partneriaid sifil i aelodau'r cynllun. Roedd hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r buddion gwŷr a gwragedd gweddwr ar sail gwasanaeth pensiynadwy'r aelod o'r cynllun o 6 Ebrill 1988 wedi'i gyfrif ar ddibenion cyfrifo pensiwn goroeswr. Mae'r un peth yn berthnasol i wŷr a gwragedd o'r un rhyw yn dilyn cyflwyno priodas rhwng pobl o'r un rhyw yn 2014. Felly, pe bai aelod o'r cynllun yn marw, byddai gan bartneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw hawl dim ond i bensiwn goroeswr yn seiliedig ar wasanaeth pensiynadwy'r aelod ers 6 Ebrill 1988. Mae darpariaethau tebyg yn berthnasol i Gynllun Digolledu Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (Cynllun Digolledu 2007) hefyd.

Ym mis Gorffennaf 2017, roedd Dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Walker yn erbyn Innospec yn datgan y dylai gwŷr a gwragedd o'r un rhyw fod â hawl i'r un buddion goroeswyr â'r rhai a oedd yn cael eu darparu ar gyfer goroeswyr priodasau rhwng pobl o rywiau gwahanol – h.y. pensiwn yn seiliedig ar wasanaeth pensiynadwy llawn, nid dim ond gwasanaeth ers mis Rhagfyr 2005 neu unrhyw ddyddiad penodedig arall. Felly mae'r ymgynghoriad yn cynnig diwygio Cynllun 1992 a Chynllun Digolledu 2007 i ddileu dyddiad cyfyngiad 1988 er mwyn cydymffurfio â dyfarniad y llys.

Hefyd, mae Rhan 3 (darpariaeth mewn perthynas â chyplau o'r un rhyw) Atodlen 1 Cynllun 1992 yn datgymhwyso'r rhan o Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 sydd i bob pwrpas yn cydraddoli partneriaeth sifil â phriodas rhwng pobl o'r un rhyw. Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Partneriaeth Sifil (Cyplau o Rywiau Gwahanol) 2019, sy'n caniatáu ffurfio partneriaethau sifil gan gyplau o rywiau gwahanol, nid

---

<sup>1</sup> [2017] UKSC 47

<sup>2</sup> [2018] UKSC 48

yw'n briodol mwyach cydraddoli partneriaeth sifil rhwng pobl o rywiau gwahanol â phartneriaeth sifil neu briodas rhwng pobl o'r un rhyw ac rydym felly'n cynnig dileu'r ddarpariaeth hon. Mae'r diwygiad hwn yn cael ei ôl-ddyddio i 13 Mawrth 2014, sef y dyddiad y cyflwynwyd priodasau rhwng pobl o'r un rhyw.

### **Dileu cyfyngiadau ar fuddion goroeswyr sy'n daladwy i blant.**

Mae'r holl gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru'n darparu ar hyn o bryd bod gan blant i aelodau o gynlluniau pensiwn hawl i fudd goroeswr lle nad oes priod neu bartner sy'n goroesi. Fodd bynnag, nodwyd nad yw Cynllun Digolledu 2007 yn gwneud darpariaeth gydradd ar gyfer plant i rieni dibriod, na llysblant a phlant wedi'u mabwysiadu ar hyn o bryd.

Dyfarnodd y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin fod gwrthod buddion sy'n daladwy i blant yn seiliedig ar statws priodasol eu rhieni'n anghyfreithlon. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnig y dylid diwygio Cynllun Digolledu 2007 i sicrhau cysondeb ar draws y gynlluniau pensiwn. Byddai hyn yn dileu gwahaniaethu yn erbyn plant a chyplau dibriod gan gydymffurfio â'r dyfarniad. Byddai'r diwygiad hefyd yn dileu'r driniaeth wahaniaethol a roddir ar hyn o bryd i blant dibynol, llysblant a phlant sydd wedi'u mabwysiadu.

### **Diwygiadau anghysylltiedig eraill sy'n ofynnol i gynlluniau pensiwn**

Mae gofyn gwneud nifer o ddiwygiadau eraill anghysylltiedig i'r cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân er mwyn diweddarau'r ddeddfwriaeth yn unol ag arfer a chanllawiau cyfredol. Mae'r rhain fel a ganlyn:-

#### **Newidiadau i Gynlluniau 1992 a 2007**

**Pensiwn Holtt** - Mae'r ddau gynllun yn caniatáu opsiwn "dau bensiwn" ar hyn o bryd os ceir gostyngiad yng nghyflog pensiynadwy diffoddwr tân pan fo'n ymgymryd â rôl wahanol. Byddai'r diwygiad arfaethedig yn egluro, lle mae gan ddiffoddwr tân hawl i ddau bensiwn dan Gynllun 1992 neu Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (Cynllun 2007), bod y swm o'r pensiwn cyntaf yn cael ei gynyddu'n flynyddol (fel pe bai'n ddarostyngedig i Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971) o adeg y gostyngiad mewn cyflog nes ei fod yn ymddeol.

Mae'r diwygiadau i Gynllun 1992 hefyd yn ei gwneud yn glir, os yw'n amlwg ar ôl i'r cyfrifiadau ar gyfer dau bensiwn gael eu gwneud y byddai'n well ar yr aelod, wedi'r cwbl, pe bai'n cael pensiwn sengl confensiynol a gyfrifwyd yn y ffordd arferol, yna mai hwn yw'r pensiwn y dylai'r aelod fod â hawl iddo. Mae'r diwygiad arfaethedig yn ei gwneud yn glir na ddylid dyfarnu'r ddau bensiwn os yw eu cyfanswm yn "is na'r" pensiwn sengl (yn ogystal â gwneud mân ddiweddariadau eraill).

**Rhannu pensiwn ar ôl ysgariad** – Ar ôl ysgaru oddi wrth aelod o gynllun pensiwn, gellir dyfarnu rhan o'u pensiwn i wŷr a gwragedd neu bartneriaid sifil fel credyd. Nid yw Cynllun 1992 a Chynllun 2007 yn ystyried newidiadau i'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ar rannu pensiwn. Felly mae'n ofynnol gwneud diwygiadau i

ddiweddaru cyfeiriad statudol sydd wedi dyddio a sicrhau bod aelodau credyd pensiwn yn parhau i gyfnewid eu budd fel a ganiateir gan y terfyn lwmpswm cyfnewidiad bychan a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

### **Newidiadau i Gynllun 2007**

**Ffactorau Cyfnewid Aelodau Arbennig** – Ar hyn o bryd dim ond ffactorau cyfnewid hyd at 65 oed y mae deddfwriaeth Cynllun 2007 yn eu cynnwys. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth bellach wedi darparu ffactorau hyd at 75 oed y mae'n ofynnol eu hymgorffori yn neddfwriaeth y cynllun. Mae'r ffactorau cyfnewid a oedd mewn grym ar 31 Mawrth 2014 (hyd at 65 oed) wedi cael eu hailadrodd yn y tabl a amnewidiwyd ac nid ydynt wedi newid.

### **Newidiadau i Gynllun 2015**

**Taliadau gwerth trosglwyddiad clwb** – Ar hyn o bryd mae Cynllun 2015 yn darparu bod diffoddwyr tân â hawliau a ddiogelir yng Nghynllun 1992 a Chynllun 2007 yn gallu trosglwyddo buddion pensiwn trwy drefniadau trosglwyddiad clwb os ydynt yn trosglwyddo rhwng Gwasanaethau Tân yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, canfuwyd gwall yn rheoliadau'r cynllun sy'n golygu y byddai'n rhaid i aelodau â hawliau a ddiogelir yng nghynllun 1992 drosglwyddo'r rhain i gynllun 2007. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai'n annheg pe na bai aelodau presennol cynlluniau diffoddwyr tân 1992 yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ymuno â Chynllun 1992 yng Nghymru ar ôl trosglwyddo i awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Felly mae diwygiadau'n ofynnol i gywiro'r gwall hwn a chaniatáu i drosglwyddiadau o'r fath rhwng cynlluniau ddigwydd.

## **A.ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT**

### **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

Ar hyn o bryd mae'r holl gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru'n darparu bod gan blant i aelodau o gynlluniau pensiwn hawl i fudd goroeswr lle nad oes priod neu bartner sy'n goroesi. Fodd bynnag, ar ôl ei hadolygu, canfuwyd nad yw Cynllun Digolledu 2007 yn gwneud darpariaeth gydradd ar gyfer plant i rieni dibriod ar hyn o bryd.

Dyfarnodd y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin fod gwrthod buddion sy'n daladwy i blant (neu ar ran plant) yn seiliedig ar statws priodasol eu rhieni'n anghyfreithlon. Er bod dyfarniad McLaughlin yn ymwneud â buddion nawdd cymdeithasol yn hytrach na buddion pensiwn, mae Llywodraeth Cymru yn credu y gellid ystyried bod y cyfyngiadau cyfredol yng Nghynllun Digolledu 2007 yn wahaniaethol hefyd. Rydym ni hefyd o'r farn ei bod yn anghywir gwrthod buddion i blant oherwydd statws priodasol eu rhieni, nad oes unrhyw reolaeth ganddynt drostynt.

Byddai diwygio Cynllun Digolledu 2007 yn dileu gwahaniaethu yn erbyn plant i gyplau dibriod yn unol â dyfarniad y Goruchaf Lys. Byddai hefyd yn dileu'r driniaeth wahaniaethol a roddir ar hyn o bryd i blant dibynnol, llysblant a phlant wedi'u mabwysiadu.

**Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Fel y cyfeirir ato uchod, dyfarnodd y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin ei bod yn anghyfreithlon gwrthod buddion i blentyn sy'n daladwy i blentyn (neu ar ran plentyn) yn seiliedig ar statws priodasol eu rhieni. Mae hyn yn amlwg yn gwahaniaethu yn erbyn y plentyn oherwydd dewisiadau bywyd ei r(h)ieni, y mae'n amlwg nad oes gan blentyn unrhyw reolaeth drostynt. Mae'r holl gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru'n darparu bod gan blant dibynnol i aelodau o gynlluniau hawl i fudd goroeswr lle nad oes priod neu bartner sifil sy'n goroesi. Fodd bynnag, nid yw Cynllun Digolledu 2007 yn caniatáu talu buddion lle genir plentyn i rieni dibriod, i llysblentyn lle digwyddodd y briodas ar ôl ymddeol nac i blentyn sydd wedi cael ei fabwysiadu ar ôl ymddeol.

Mae hyn yn amlwg yn groes i Erthygl 2 ac, fe ellid dadlau, i Erthygl 27 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd cydraddoli hawl ar gyfer y plant hyn yn sicrhau nad effeithir yn anffafriol ar blentyn yn y sefyllfa hon o ganlyniad i ffactorau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.